# Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG

# COFNODION CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION (FFCY) CAERDYDD

| | |
|---|---|
| **Amser:** | 8.30am – 10.30am |
| **Dyddiad:** | 11 Chwefror 2026 |
| **Lleoliad:** | Microsoft Teams |
| **Yn bresennol:** | Cadeirydd – Nic Naish (NN), y Cynghorydd Sarah Merry (SM), y Cynghorydd Chris Weaver (CW), Helen Williams (HW), Ian Allwood (IA), Eifion Austin (EA), Jennie Hughes (JH), Stuart Davies (SD), Brett Andrewartha (BA), Angela Jardine (AJ), Nicola Price (NP), Paul Tucker (PT), Marc Belli (MB), Tim Adams (TA), Gareth Davies (GD); David Silver (DS), Abigale Cuthbert (AC), Sarah Parry (SP), Gareth James (GJ), Gareth Rein (GR), Carys Prytherch (CP), Will Howlett (WH), Sarah-Marie Jones (SMJ), Rhodri Thomas (RT), Ivor Gittins (IG), Clerc Rheoli Addysg |
| **Ymddiheuriadau:** | Andrew Skinner (AS), Melanie Godfrey (MG), Richard Portas (RP), Wayne Murphy (WM), Emma Richards (ER), Sara Allen (SA), Matthew Evans (ME), Suzanne Scarlett (SS), Rachael Fisher (RF), Nick Alexander (NA), Diane Gill (DG), Y Cynghorydd Joel Williams (JW), Suzanne Williams (SW), Patrick Brunnock (PB) |

| Cyf | **Casgliadau/Camau Gweithredu** | **Pwy** |
|---|---|---|
| 1.0 | **Ymddiheuriadau a chroeso** | |
| 1.1 | Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a derbyniodd ymddiheuriadau. | |
| 2.0 | **Cofnodion y cyfarfod blaenorol / Materion a chamau yn codi o gofnodion y cyfarfod blaenorol** | |
| 2.1 | Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.<br><br><u>Materion yn codi</u><br><br>• Cafodd cynnig CGG 2026/27 ei awgrymu i CGA fel eitem agenda.<br>• Diweddariad ar yr opsiynau CLGA Technoleg Addysg/TG (MG / MO'B) - gofynnwyd am yr adborth a ddarparwyd yn y gynhadledd penaethiaid cynradd yn ysgrifenedig. Bydd EA/MG yn mynd ar drywydd hyn. | EA/MG |
| 3.0 | **Diweddariad Fformiwla Ysgolion** | |
| 3.1 | Amlinellodd EA newidiadau posibl i'r fformiwla ysgolion a gwahoddodd sylwadau erbyn 13 Chwefror.<br><br>Nodwyd ansicrwydd ar newidiadau posibl oherwydd ADY ac ehangu lleoedd arbenigol yn ystod FfCY mis Ionawr. Gwnaed newidiadau i'r fformiwla yn dilyn y cyfarfod a gwnaed gwaith pellach i gadarnhau rhagdybiaethau. Roedd y pwyntiau a amlygwyd yn cynnwys: | |

- Cynnydd net yng nghyllideb ysgolion dirprwyedig o £19.m (y mae £5.5m ohono yn ymrwymiadau cost cynyddol o flwyddyn ariannol 2025/26).
- Cynnydd o 5.9% yn gyffredinol
- Y rhagdybiaethau presennol - cynnydd o £5m (21%) yng nghyllideb ysgolion arbennig, bydd £4m o hyn yn hwyluso cynnydd o 156 o leoedd (17%).
- Bydd disgrifwyr band disgyblion newydd yn cael eu gweithredu ar ôl trafod gyda'r sector.
- Bydd costau pontio (blaengyllido) ar gyfer lleoliadau sy'n dechrau ym mis Medi 2026 yn cael eu hariannu y tu allan i'r fformiwla.
- CAAau cynradd – cynnydd o £3m (46%). Ariennir blwyddyn lawn ychwanegol sy'n cyfateb i 91 o leoedd. Bydd costau pontio yn cael eu hariannu trwy'r fformiwla.
- CAAau uwchradd – cynnydd o £1.2m (14%), yn ymwneud â chynnydd o 9% mewn lleoedd. Bydd costau pontio (blaengyllido) yn cael eu hariannu trwy'r fformiwla.

<u>Prif ffrwd cynradd</u>

- Cynnydd o £3.8m (2.5%)
- Gostyngiad o 5% yn nifer y disgyblion a ariennir drwy'r fformiwla
- UBOD - cynnydd o 5.9%
- Cyllid prif ffrwd ADY - cynnydd o 5.3%
- Mae 24 ysgol ychwanegol yn derbyn amddiffyniad ar gyfer gostyngiad yn y niferoedd ar y gofrestr (£480k, cynnydd o 133%)
- Mae 3 ysgol arall yn derbyn cyfandaliad ysgol bach oherwydd gostyngiad yn nifer y disgyblion (£157k, cynnydd o 43%)

<u>Prif ffrwd uwchradd</u>

- Cynnydd o £6.2m (5%)
- Niferoedd disgyblion statig
- UBOD - cynnydd o 5.7%
- Cyllid prif ffrwd ADY - cynnydd o 5.9%

<u>Heb eu dyrannu</u>

- Mae £350k heb ei ddyrannu ar hyn o bryd o fewn y fformiwla, wedi'u neilltuo i ariannu costau safleoedd o dwf lleoliadau arbenigol, sy'n debygol o gael ei gadw ar gyfer cynnydd sy'n digwydd.

Cyflwynwyd senarios addasu cyllideb fformiwla ar gyfer ysgolion cynradd ac ystyriwyd cynnydd i gyfandaliadau, gan gynnig trosglwyddo £1m o UBOD i gyfandaliad fesul £10k ychwanegol o gyllid cyfandaliad, a gostyngiad o 1% yng ngwerth UBOD.

Gofynnwyd i'r aelodau a ddylid cadw'r cyfandaliad ar y gwerth presennol, i wneud y mwyaf o gyllid ar ôl disgyblion, neu gynyddu'r cyfandaliad i gefnogi ysgolion llai.

Gofynnodd MB a fyddai'r gyfradd gostyngiad ar gyfer ysgolion mwy yn adlewyrchu cyfrannau tebyg. Cadarnhaodd EA po fwyaf yw'r ysgol gynradd, y lleiaf o gyllid fyddai'n cael ei dderbyn (trosglwyddo o ddisgybl i gyllid cyfandaliad). Tynnodd MB sylw at risg i ysgolion mwy a gydnabuwyd.

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd y sector uwchradd wedi mynegi ffafriaeth am gyllid dan arweiniad disgyblion yn hytrach na chyfandaliad.<br><br>Nododd IA sawl her i'r sector cynradd, un yw'r nifer sylweddol o leoedd dros ben. Ni fyddai UBOD yn ariannu'r lleoedd dros ben, ceisiwyd cydbwysedd. Mae'r fformiwla yn ceisio cynnig y cymorth mwyaf posibl i bob ysgol gynradd. Awgrymwyd y cynnig ar gynyddu cyfran y cyfandaliadau i gynorthwyo pob ysgol gynradd, tra'n cydnabod UBOD fel y prif sbardun sylfaenol. Gan y gall egwyddorion y fformiwla weithiau wrthdaro â chynaliadwyedd, roedd angen canolbwyntio'n gyfan gwbl ar niferoedd disgyblion yn risg.<br><br>Nododd SMJ fod y gynhadledd penaethiaid cynradd yn cydnabod bod rhaid lleihau UBOD i ariannu lleoedd ADY ychwanegol a darpariaeth arbenigol, pe bai UBOD ar gyfer disgyblion meithrin neu flynyddoedd cynnar yn cael ei hystyried, mae ysgolion cynradd yn darparu ar gyfer anghenion anhysbys yn y garfan am ddeuddeg mis neu fwy. Cadarnhaodd EA ystyriaeth ar Blynyddoedd Cynnar ac ADY, gyda chynnig wedi'i gyflwyno i newid y fformiwla ADY ar gyfer mwy o bwysoli yn y Blynyddoedd Cynnar.<br><br>Ailadroddodd y Cadeirydd fod ysgolion llai yn cyflwyno'r un cwricwlwm a chynnig cymunedol ag ysgolion mwy, gyda llai o staff. Croesewir trafodaeth ar gydbwysedd teg. Cefnogwyd cydnabyddiaeth o hyn gyda chyfandaliad uwch (ar y gwerthoedd is), heb effeithio'n sylweddol ar ysgolion mwy.<br><br>Cadarnhaodd EA y byddai cymarebau athrawon a chynorthwywyr addysgu i ddisgyblion mewn gwahanol grwpiau oedran yn aros yr un fath â'r llynedd. Mae'r cyllid yn adlewyrchu gostyngiad cyfraniadau pensiwn cyflogwr ar gyfer cynorthwywyr addysgu y flwyddyn nesaf. Efallai na fydd Blynyddoedd Cynnar yn cynyddu cymaint â grwpiau blwyddyn eraill oherwydd bod cost yr elfen cynorthwy-ydd addysgu yn llai na'r elfen athrawon.<br><br><u>Cyllid Prif Ffrwd ADY</u><br><br>Cydnabuwyd sylwadau blaenorol ynghylch ADY ar gynnig i leihau cyllid prif ffrwd ADY i ariannu lleoedd.<br><br>Cynigiwyd £170k o gyllid ychwanegol i'r fformiwla ADY (cynnydd o 5.3% yn y rhagdybiaeth sylfaenol gyfredol), sy'n cyfateb i 0.2% o UBOD, gan gynyddu cyllid ADY 1% arall, i 6.3%. Byddai'r dull dyrannu yn aros yn ôl y cynllun, gyda phwysoliad ychwanegol o 30% yn y Blynyddoedd Cynnar wedi'i gyflwyno ar gyfer disgyblion meithrin i flwyddyn dau.<br><br>Byddai newid o leiaf 0% yn cael ei weithredu (er mwyn osgoi colledion cyllid o 2025/26) ac uchafswm cynnydd o 15% (i fantoli'r cyllid a ddyrannwyd ar angen tra'n lleihau anwadalrwydd).<br><br>Ceisiodd GR eglurhad na fyddai cyllid ADY i ysgolion prif ffrwd yn cael ei leihau. Cadarnhaodd EA yn seiliedig ar y fformiwla fod hyn yn gywir. Cwestiynodd GR o ble byddai cyllid yn cael ei sicrhau i ddiwallu'r angen i gynyddu lleoedd adnoddau mewn ysgolion arbennig ac a oedd hyn yn gyllid ychwanegol. Esboniodd EA fod yr amlen ariannu yn aros yr un fath, fel y nodwyd ym mis Ionawr. Cynhaliwyd gwaith pellach i ddeall y defnydd o arian a dyraniad. Derbyniwyd cadarnhad ar wahanol gronfeydd o'r tu allan i'r awdurdod, a fydd yn ariannu cynnydd sylweddol mewn ysgolion arbennig o fis Ebrill i fis Awst. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nododd GR newid sylweddol ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gyfer rhai ardaloedd oherwydd adeiladau newydd, er nad oedd incwm yn yr ardaloedd wedi newid ac roedd yn cwestiynu'r effaith ar gyllidebau ysgolion. Rhoddodd EA sicrwydd nad oedd newidiadau wedi'u gwneud ers MALIC 2017, er mwyn osgoi anwadalrwydd. Cwestiynodd y Cadeirydd a fyddai'r defnydd o'r data yn cael ei ailystyried yn y dyfodol. Nododd EA drafodaeth rhwng yr ALI a Llywodraeth Cymru ar ystyried y mesur amddifadedd mwyaf priodol.<br><br>Roedd IA yn adleisio bod defnydd cPYADd a MALIC yn cael ei drafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, ac roedd penderfyniadau gan LIC yn yr arfaeth. Er bod y defnydd o'r data blaenorol yn cael ei gydnabod, roedd risg o ddefnyddio un neu'r llall o'r ddau ddangosydd nes bod penderfyniad gan LIC yn cael ei dderbyn. Nid oedd yr ALI eisiau ychwanegu anwadalrwydd yn ddiangen yn y system heb fod mewn gwiriad ag eraill.<br><br>Cyfeiriodd MB at y dangosydd PYADd, gan nodi bod plant ag ADY a PYADd yn cael effaith anghymesur ar eu cynnydd, a gofynnodd pa bwyso cPYADd oedd yn cael ei roi o fewn y fformiwla a nodwyd. Nododd EA ddau bwysoliad gwahanol, yn seiliedig ar ddadansoddiad ar gyfer y sector cynradd ac uwchradd.<br><br>Gofynnodd EA am adborth ar symud £170k o UBOD i'r fformiwla ariannu ADY, gan sicrhau bod arian yn cael ei ddyrannu drwy'r dyraniad fformiwla ar gyfradd gyflymach, neu gapio'r cynnydd uchaf yn is ar 10% / 12.5%. Nododd y Cadeirydd dderbyniad eang a diolchodd i swyddogion am eu gwaith a gymerwyd.<br><br>Gofynnodd AJ a fyddai pwynt adolygu yn dilyn y newid a wnaed, efallai i wrthdroi'r penderfyniad neu'r cyfle i addasu mecanwaith. Nododd EA newid fformiwla ADY cynyddol a chapiau o'r llynedd, gan ganiatáu addasu yn ôl yr angen, ac argymhellodd adolygu yn yr hydref, cam ehangu cyntaf lleoliadau arbenigol ADY. Croesawodd y Cadeirydd adolygiad yn gynnar yn yr hydref.<br><br>Argymhellodd AJ ychwanegu cyllid prif ffrwd ADY fel eitem agenda sefydlog.<br><br>Cadarnhaodd IA fod y fformiwla yn cael ei hadolygu'n flynyddol, gyda data gwirioneddol yn llywio cynigion yn y dyfodol. Bydd swyddogion yn parhau i addasu i faterion sy'n dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn, adnewyddu ac adolygu, wrth gyfathrebu â'r fforwm, fel rhan o'r sgwrs barhaus.<br><br>Gofynnodd EA am barn ar barhau i weithredu dosbarthiad fformiwla o gyllid prif ffrwd ADY ar gyfer sefydliadau uwchradd, gydag isafswm newid o 0% ac uchafswm o 15% o gyllid, neu oedi tra bod ehangu lleoedd arbenigol ADY yn parhau. Roedd SD a MB yn fodlon bwrw ymlaen.<br><br>Nododd IA y byddai rhai heriau cyllideb yn parhau i fod ar gyfer ysgolion y flwyddyn nesaf, tybir bydd gwariant ar y cyd yn 2026/27 tua £3m yn uwch na'r cyllidebau. Mae penderfyniadau anodd yn parhau i fod i rai ysgolion. Roedd amryw o liferi yn cael eu harchwilio i gynorthwyo gwahanol fathau o ysgolion, gydag atebion ar gyfer pob sector yn cael eu hystyried.<br><br>Ailadroddodd EA y caiff her, ar gyfer ysgolion cynradd gyda nifer y disgyblion sy'n gostwng (sy'n effeithio ar rai yn fwy nag eraill), o ran sut i fynd i'r afael â'r fformiwla ei harchwilio gyda'r fforwm. | Clerc, Cadeirydd |

| | | |
|---|---|---|
| | Gofynnwyd i'r Aelodau roi sylwadau ar y cynigion erbyn diwedd y diwrnod busnes, 13 Chwefror. | |
| 4.0 | **Unrhyw Fater Arall** | |
| 4.1 | Awgrymodd IA lythyr gan y Cadeirydd i'r Cabinet ar yr ymgynghoriad o'r fforwm. Gwahoddwyd yr aelodau i anfon unrhyw sylwadau yr hoffent eu cynnwys yn yr ymateb i'r llythyr ymgynghori at NN neu AS. Bydd NN yn cysylltu ag AS.<br><br>Diolchodd HW i EA ac IA am eu gwaith caled a wnaed ac alinio cyllidebau. Adleisiodd NN y ganmoliaeth, yn enwedig gydag enghreifftiau diriaethol a ddarparwyd, gan alluogi myfyrio teg. | |
| 5.0 | **Crynodeb o'r Camau Gweithredu** | |
| 5.1 | a. Bydd EA yn dilyn adborth ysgrifenedig y gofynnwyd amdano ar yr opsiynau CLG Technoleg Addysg/TG a ddarperir yn y gynhadledd penaethiaid cynradd.<br>b. Cyllid prif ffrwd ADY i fod yn eitem agenda sefydlog. | EA / MG / MO'B Clerc |

Acronymau

| | |
|---|---|
| CCAC | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru |
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| DDdY | Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol |
| UBOD | Uned Disgyblion wedi'u Pwysoli ar Gyfartaledd |
| AYECh | Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol |
| ASG | Adroddiad Strategaeth y Gyllideb |
| FfCY | Fforwm Cyllideb Ysgolion |
| CC | Cyngor Caerdydd |
| CGCC/CG | Cronfa Galedi Cyngor Caerdydd/Cronfa Galedi |
| TGAC | Taliad Gwella Anghenion Cymhleth |
| CC | Cadeirydd Cynadleddau |
| CLl | Cadeirydd y Llywodraethwyr |
| CCD | Consortiwm Canolbarth y De |
| CT | Treth Gyngor |
| CYD | Cyllideb Ysgolion Dirprwyedig |
| ILlE | Iechyd a Lles Emosiynol |
| AHY | Addysg Heblaw yn yr Ysgol |
| GGA | Grant Gwella Addysg |
| CS | Cynllun Ariannol |
| DD | Gwasanaethau Ariannol |
| PYADd | Prydau Ysgol Am Ddim |
| BA | Blwyddyn Ariannol |
| AD | Adnoddau Dynol |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| SALl | Setliad Awdurdod Lleol |
| SRhALl | Swyddog Rheoli Ariannol Lleol |
| LIL | Pensiynau |
| CGLlL | Cronfa Galedi Llywodraeth Leol |
| DLESRTh | Dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr |
| CGG | Cronfa Gydgyflenwi |

| | |
|---|---|
| SCTC | Strategaeth Cyllideb Tymor Canolig |
| CATCau | Cyllidebau Ariannol Tymor Canolig |
| RhATC | Rheolaeth Ariannol Tymor Canolig |
| CATC | Cynllun Ariannol Tymor Canolig |
| YG | Yswiriant Gwladol |
| Nifer ar y gofrestr | Nifer ar y Gofrestr |
| DC | Dyfarniad Cyflog |
| CY | Dysgu Proffesiynol |
| GDD | Grant Amddifadedd Disgyblion |
| GDP | Grant Dysgu Proffesiynol |
| Ch_ | Chwarter_ (Rhif perthnasol) |
| CBG | Cyflog Byw Gwirioneddol |
| GCR | Grant Cynnal Refeniw |
| SPY | Swyddog Presenoldeb Ysgol |
| BY | Balans Ysgol |
| FfCY | Fforwm Cyllideb Ysgolion |
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig |
| CLG | Cytundeb Lefel Gwasanaeth |
| RhTY | Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion |
| CAA | Canolfan Adnoddau Arbenigol |
| ULl | Undeb Llafur |
| PYaDdHBYC | Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| MALlC | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru |